## Rôl y rheolwyr perthynas a'r archwilwyr penodedig

Mae'r pwerau sy'n gysylltiedig â rôl y Rheolwr Perthynas (RhP) yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999, Rhan 1, Adran 10. Welsh Assembly Government circular 28/2005, requires the Wales Audit Office to appoint Relationship Managers (RMs) who are responsible for identifying and co-ordinating effectively, as far as is practicable, all regulation and inspection activity at their local authority sites. The principles that underpin that guidance include a requirement that regulators *"work together, to co-ordinate inspection activity in support of continuous improvement"*.

Mae cydadolygiadau yn rhan o raglen genedlaethol o adolygiadau o wasanaethau cymdeithasol. Fel y cyfryw, nid ydynt wedi'u seilio'n uniongyrchol ar asesiadau risg lleol er eu bod yn ymateb iddynt. Bydd RhP ac archwilwyr penodedig yn cael gwybod ymlaen llaw am y rhaglen arfaethedig o adolygiadau.

Gellir crynhoi rôl y RhP a'r archwilwyr yn gyffredinol fel a ganlyn:

- paratoi rhaglen reoleiddio i ystyried y cydadolygiad;
- cyfrannu at lunio gwybodaeth am gyd-destun pob awdurdod i'w chynnwys yn y wybodaeth ragarweiniol a chynorthwyo i gwblhau'r templed;
- briffio'r tîm cydadolygu cyn dechrau ar bob cydadolygiad;
- darparu gwybodaeth am yr ardal leol a chymorth yn ystod yr adolygiad;
- goruchwylio'r trefniadau trosglwyddo yn dilyn y cydadolygiad;
- gweithio gyda'r tîm cydadolygu er mwyn cytuno ar y trefniadau priodol ar gyfer y camau dilynol.

## Paratoi'r cynllun rheoleiddio

Bydd y RhP yn sicrhau bod y cydadolygiad yn cael ei gynnwys yn y cynllun rheoleiddio a bydd yn sicrhau bod y gwaith rheoleiddio arall a wneir yn ystyried y llwyth gwaith y bydd y cydadolygiad yn ei olygu i'r awdurdod. Mewn rhai awdurdodau, gall hyn gynnwys dau gynllun rheoleiddio (yn dibynnu ar yr adeg y bydd y cydadolygiad yn dechrau) er mwyn caniatáu i'r awdurdod baratoi ei wybodaeth ragarweiniol cyn yr adolygiad a gweithredu ei gynllun gweithredu ar ôl yr adolygiad. Bydd y RhP yn cysylltu â'r holl reoleiddwyr er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith a gynlluniwyd yn rhoi baich diangen ar yr awdurdod a bod y rhaglen rheoleiddio yn cael ei chydgysylltu'n effeithiol.

Dylid nodi y bydd y rhaglen cydadolygiadau yn cael ei threfnu ymlaen llaw. Nid oes modd newid y rhaglen er y gellir gwneud mân newidiadau i'r dyddiadau pryd y bydd yr adolygwyr ar y safle er mwyn caniatáu am amgylchiadau lleol penodol. Golyga hyn y bydd yn rhaid cynllunio at y dyfodol er mwyn sicrhau y gall yr awdurdod ymdopi â'r gwaith rheoleiddio a gynlluniwyd o bob asiantaeth.

## Regulatory calendars

The audit and inspection programme established in the regulatory plan is detailed in a regulatory calendar that sets out the proposed timings of individual pieces of work during the year so that overlaps and potential pressure points can be identified. The WAO, in consultation with other regulators, updates and issues the calendar for each authority on a quarterly basis to ensure that any agreed changes in the timing of activities during the year are recorded.

For local authority sites where joint reviews are being undertaken, changes in the timing of other activities will, as far as possible, be sensitive to any capacity constraints or other local circumstances.

## Cwblhau gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer y templed gwybodaeth ragarweiniol

Bydd y templed gwybodaeth ragarweiniol yn cael ei gwblhau gan yr awdurdod lleol, y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, AGCC a'r tîm cydadolygu. Fe'i defnyddir yn lle'r datganiad sefyllfa a ddefnyddiwyd yn ystod cylch cyntaf y cydadolygiadau.

Bydd RhP a'r archwilwyr penodedig yn defnyddio'r wybodaeth a'r data sydd eisoes ar gael er mwyn cwblhau adrannau yn y templed sy'n disgrifio cyd-destun pob awdurdod. Mae'r adrannau'n cwmpasu:

- trefniadau gwleidyddol a rheoli;
- rheolaeth wleidyddol;
- manylion am y strwythur corfforaethol;
- crynodeb o'r weledigaeth a'r blaenoriaethau corfforaethol;
- crynodeb o'r gwaith rheoleiddio perthnasol;
- gwybodaeth am y gyllideb a rheolaeth ariannol;
- trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad.

## Briffio'r tîm cydadolygu

Er mwyn hwyluso'r broses o baratoi'r wybodaeth ragarweiniol, bydd y RhP a'r archwilwyr penodedig yn briffio'r staff cydadolygu er mwyn eu galluogi i nodi a chynnwys gwybodaeth sy'n briodol ac sydd wedi'i chefnogi gan dystiolaeth.

Mae'r templed gwybodaeth ragarweiniol yn disodli'r datganiad sefyllfa a baratowyd gynt gan yr awdurdod lleol ei hun. Yn ystod ail gylch y cydadolygiadau yng Nghymru, bydd cymaint o wybodaeth â phosibl yn cael ei pharatoi ar sail y wybodaeth a'r data sydd eisoes ar gael i'r AGCC, y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a rheoleiddwyr eraill. Bydd rôl arbennig i'r RhP a'r archwilwyr penodedig wrth gynghori'r tîm ynglŷn â'r wybodaeth sydd ar gael ac ym mha le. Gall hyn gael ei gynnwys yn y templed gwybodaeth ragarweiniol cyn ei roi i'r awdurdod lleol er mwyn iddynt ddilysu ei gywirdeb.

Cynhelir cyfarfod o'r rheoleiddwyr a'r arolygwyr cyn dechrau'r adolygiad. Bydd y RhP a/neu'r archwilydd penodedig yn bresennol yn y cyfarfod hwn er mwyn sicrhau bod y tîm cydadolygu yn ymwybodol o'r holl wybodaeth berthnasol a sôn am unrhyw amgylchiadau lleol a fydd yn effeithio ar y modd y caiff yr adolygiad ei gynnal.

Bydd y RhP a'r archwilwyr penodedig yn rhan o'r asesiad interim a'r cyfarfod dadansoddi risg ar ddiwedd yr adolygiad eang. Yn y cyfarfod hwn bydd y tîm cydadolygu yn ceisio :

- sefydlu faint o dystiolaeth ddibynadwy sydd eisoes wedi'i chasglu,
- tynnu sylw at unrhyw fylchau yn y dystiolaeth y mae angen eu llenwi gan gyfeirio at y meysydd i'w harchwilio a nodwyd yn y meini prawf ar gyfer y dyfarniad (gweler Adran 0.6 yn y Llawlyfr);
- gwneud asesiad dros dro o'r cryfderau a'r gwendidau cymharol;
- penderfynu ar y meysydd y dylid rhoi sylw iddynt yn ystod y prif waith cwrs ar sail dadansoddiad o'r risg.

**Cymorth yn ystod yr adolygiad**

Yn ystod pob adolygiad ac wrth ddadansoddi'r dystiolaeth, efallai y bydd angen i'r tîm adolygu ymgynghori â'r RhP neu'r archwilydd penodedig er mwyn cael eglurhad ynglŷn â darn arbennig o wybodaeth neu er mwyn cael persbectif ehangach ar faterion a nodwyd.

Ni fydd angen i RhP yr awdurdod neu archwilwyr penodedig gymryd rhan yng ngwaith maes y cydadolygiad. Os bydd angen i AC gyfrannu at waith y tîm cydadolygu, bydd personél priodol yn cael eu neilltuo gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

**Trefniadau trosglwyddo**

Unwaith y cytunir ar yr adroddiad ac y caiff ei gyhoeddi, bydd y tîm cydadolygu yn cyfarfod â'r RhP (neu'r sawl a enwyd ganddo/ganddi) a'r awdurdod er mwyn cytuno ar drefniadau ar gyfer monitro'r cynllun gweithredu. Y cyfarfod trosglwyddo hwn fydd yr achlysur a fydd yn nodi trosglwyddo'r cyfrifoldeb o'r adolygydd arweiniol i'r RhP a'r archwilydd penodedig. Byddant yn sicrhau bod yna eglurder ynghylch y ffordd ymlaen a phwy fydd yn gyfrifol am y trefniadau ar gyfer y camau dilynol.

**Y camau dilynol**

Yn dilyn y cydadolygiad, bydd y RhP yn sicrhau y cytunir ar y trefniadau ar gyfer y camau dilynol a'u bod yn cael eu rhoi yn eu lle. Gall y gwaith hwn gael ei wneud gan archwilwyr yr awdurdod a/neu AGCC. Cytunir ar gwmpas a natur y gwaith dilynol i'w wneud yng ngoleuni:

- canfyddiadau'r adolygiad (yn arbennig yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad fel rhai y mae angen eu datblygu)
- y drafodaeth yn ystod y cyfarfod trosglwyddo
- effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod lleol ei hun ar gyfer y gwaith monitro
- lefel y consýrn gwleidyddol.

Bydd y RhP a'r archwilwyr penodedig yn sicrhau bod y trefniadau ar gyfer y camau dilynol yn cael eu cydgysylltu â gwaith rheoleiddio arall a'u bod yn cael eu cynnwys yn y cynllun rheoleiddio. Fel rheol, mae elfen o hyblygrwydd yn amseriad ymgymryd â'r camau dilynol. Dylid ystyried yr amser fydd ei angen ar yr awdurdod i ddangos ei fod yn cyflawni ei gynllun gweithredu a bod y canlyniadau dymunol yn cael eu gwireddu.

Bydd barn arbennig o wael yn y naill brif ddimensiwn neu'r llall a ddefnyddir i farnu perfformiad yn ystod cydadolygiad (*pa mor dda yw'r gwasanaethau?* a *I ba raddau y mae'r awdurdod mewn sefyllfa dda i allu cynnal a gwella'r gwasanaethau?)* yn arwain at ystyried

- a oes sail dros fod â phryderon difrifol

ac, felly,

- a oes angen rhoi ar waith y protocol y cytunwyd arno er mwyn ymyrryd.

O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y RhP a'r archwilwyr penodedig yn derbyn yr holl wybodaeth berthnasol.